## Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

**17 Mawrth 2021**

Yn Bresennol: Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.45am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans a'r Cynghorydd P Harries.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16eg o Ragfyr 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16eg o Ragfyr 2020.

**4. Cofrestr Risg**
Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Timau Rheoli ac Arweinyddiaeth wedi adolygu'r gofrestr risg, ac amlygwyd y newidiadau a wnaed ers yr adroddiad blaenorol.

Nodwyd o ran Risg 40 bod aelod o'r cyhoedd wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd y rheolaethau ar gyfer cwcis trydydd parti ar wefan yr Awdurdod yn ddigonol. Roedd y mater bellach wedi'i ddatrys, ac adroddwyd ar y mater i'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond ni chafwyd ymateb oddi wrthynt hyd yn hyn.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am y tabl oedd yn amlygu'r prif newidiadau o'r adroddiad blaenorol, oedd yn ddefnyddiol iawn iddynt, ond gofynnwyd a ellid hefyd roi cyflwyniad cyffredinol yn egluro sut y caiff risgiau eu clustnodi a chodi lefel y risg, a sut oedd y gofrestr yn cael ei defnyddio. Hefyd bu trafodaeth gyffredinol am barodrwydd i dderbyn risg a'r potensial i wella'r Gofrestr, gan ddysgu o arferion gorau, ac awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol i drafod hyn mewn gweithdy. Gan nodi bod y Gofrestr yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor hwn a gan y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, awgrymodd y Prif Weithredwr hefyd y dylid cyflwyno'r Gofrestr Risg gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn flynyddol.

O ran Risg 40, ac o ragweld penodi Swyddog Diogelu Data yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, gofynnodd yr Aelodau am hyfforddiant ar faterion diogelu data, ac awgrymwyd y gellid trefnu gweithdy, o bosibl ar y cyd â'r staff, yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gwnaed sylwadau ar risgiau eraill, megis Risg 20 a Risg 39, lle nad oedd y camau lliniaru wedi newid y sgôr weddilliol. Mynegwyd pryder ynghylch diogelwch data a'r risg gyffredinol i seilwaith technoleg gwybodaeth yr Awdurdod, yn enwedig wrth drosglwyddo i systemau newydd, a tynnwyd sylw at adroddiad gan Archwilio Cymru ar gydnerthedd sefydliadau cyhoeddus. Atebodd y Prif Weithredwr ei fod yn ymwybodol o'r adroddiad a'i fod yn gobeithio y byddai'r adroddiad, ynghyd ag adroddiad Archwilio Mewnol ar seiberddiogelwch, yn cael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol. Gellid sicrhau bod copïau o'r adroddiadau hynny ar gael i Aelodau'r Pwyllgor hwn. Yn olaf o ran y clefyd Coed Ynn (Risg 43), cwestiynwyd a ddylai'r risg barhau ar lefel 'uchel', gan fod y clefyd wedi lledaenu i'r fath raddau, a'r mesurau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau.

**NODWYD.**

**5. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 31ain Ionawr 2021**

Roedd yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun mewn dwy ran - roedd yr adran gyntaf yn seiliedig ar y cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau tymor byr a'r tymor canolig, oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 a chynllunio'r adferiad, tra bod yr ail adran yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith oedd yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn y tymor hwy, a'r effeithiau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddai'r adran hon, wrth gamu ymlaen i'r dyfodol, yn rhoi mewnwelediad i effaith COVID-19 a'r adferiad ar gyflawni yn y tymor hir ac ar y prosiectau ar draws yr amcanion llesiant.

Dywedwyd efallai y gellir cymryd camau ymlaen ar rai gweithgareddau o fewn y ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, roedd nifer ohonynt, yn enwedig y rhai sy'n golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, yn ddibynnol ar godi'r cyfyngiadau a'r rheoliadau neu eu hail-gyflwyno. Roedd camau gweithredu yn cael eu hadolygu fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22 a byddai angen dal rhai gweithgareddau yn ôl oherwydd effaith COVID-19.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Ionawr 2021 o ran data misol ac ystadegau chwarter 1 - 3 (Ebrill - Rhagfyr) ar rai setiau data. Roedd eglurhad ar y statws Coch Melyn Gwyrdd wedi'i atodi i'r adroddiad.

Nodwyd bod cefnogaeth i Ffynnon, sef system allanol yr Awdurdod o adrodd ar berfformiad, bellach wedi dod i ben a bod system newydd fewnol wedi'i datblygu i'w disodli. Roedd y system newydd yn cael ei defnyddio ac roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn seiliedig ar y data a fewnbynnwyd.

Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu effaith y cyfnod clo fis Rhagfyr. Roedd y canolfannau ymwelwyr ar gau, ond dywedwyd yn y cyfarfod bod y timau Wardeniaid bellach yn gwneud gwaith cynnal a chadw arferol yn unol ag asesiadau risg priodol. Roedd pencadlys yr Awdurdod yn Llanion hefyd wedi bod ar gau fis Rhagfyr ac roedd y mwyafrif o staff yn parhau i weithio gartref. Ni chaniatawyd cynnal y mwyafrif o ymweliadau safle, ac roedd hyn wedi cael effaith ar waith rhai timau. Roedd hyn wedi effeithio'n benodol ar yr adran gynllunio, yn ogystal â'r cyfyngiadau ar dasgau cynllunio yn y swyddfa. O ganlyniad i hyn ac effaith cyfyngiadau'r clo blaenorol, roedd canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol eleni yn sylweddol is na'r targed, sef 57.61%, er bod hyn yn welliant ar ffigur Ch2. Roedd yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio wedi cynyddu eleni o 102.5 diwrnod yn Ch2 i 113 diwrnod yn Ch3.

Roedd y cyfnod clo hefyd wedi dod â nifer o'r gwasanaethau wyneb yn wyneb i ben oedd wedi ailgychwyn yn ystod Ch2 a Ch3, ac roedd yr adroddiad yn nodi'r hyn a gyflawnwyd o ganlyniad i'r dull hyblyg a addaswyd yn ystod y misoedd hynny. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn amlinellu peth o'r gwaith a wnaed tuag at ddatblygu amcanion tymor hir.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr, roedd yr Aelodau hefyd am ddiolch i'r staff ar draws yr Awdurdod am eu gwaith yn ystod amgylchiadau anodd. Roedd y swyddogion wedi ateb nifer o gwestiynau manwl, ac wedi cytuno i gysylltu ag Adnoddau Dynol i roi rhagor o wybodaeth am y cynllun Kickstart i'r Aelodau. Mynegwyd pryder ynghylch yr anawsterau o sicrhau bod cadeiriau olwyn y traeth ar gael, a'r gobaith oedd y gellir dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud hyn.

O ran methodoleg Carboniadur Llywodraeth Cymru, dywedodd y swyddog y disgwylir cyhoeddi hyn yr wythnos ganlynol. Ychwanegodd y byddai gwybodaeth am ddyfarniadau perthnasol drwy'r grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael ei chynnwys yn y diweddariadau ar Faterion Gwyrddu ein Cymunedau.

**NODWYD.**

**6. Adroddiad Cynnydd ar Reoli'r Coed sydd â Chlefyd Coed Ynn**

Roedd y clefyd coed ynn yn glefyd a achosir gan y ffwng *Hymenoscyphus fraxineus*, sy'n effeithio ar yr Onnen Gyffredin ac sydd bellach yn endemig yng ngwledydd Prydain ac mewn ardaloedd helaeth yn Sir Benfro. Effaith

y clefyd yw gwneud y coed yn ansefydlog yn y pen draw, yn colli eu canghennau ac yn dod yn risg bosibl i'r cyhoedd.  Hefyd mae coed marw yn peri mwy o risg yn ystod y gwaith o gwympo’r coed.

Roedd coed ar ystâd yr Awdurdod yn cael eu harolygu yn rheolaidd fel rhan o Bolisi Diogelwch Coed yr Awdurdod, fel arfer wrth gynnal yr asesiad risg blynyddol ac ar ôl cyfnodau o dywydd garw. Fodd bynnag, yn 2019 cytunwyd y dylid cynnal arolwg ychwanegol o’r clefyd coed ynn ar bob safle sy'n eiddo i’r Parc gan fod y clefyd yn lledaenu’r gyflym a bod rhai coed yn dirywio’n gyflym.  Roedd manylion pellach wedi’u nodi yn yr adroddiad.

Fel rhan o'r broses hon, rhannwyd pob safle yn barthau yn ôl y defnydd a wneir ohonynt, gyda rhai safleoedd yn cynnwys sawl parth yn dibynnu ar pha mor aml y mae’r cyhoedd neu'r staff yn ymweld â hwy.  Cynhaliwyd arolwg o bob safle Parth 1 yn ystod haf 2020, pan oedd y coed yn eu dail a'r clefyd ar ei fwyaf amlwg, a chymerwyd camau adferol yn ystod gaeaf 2020/21.  Byddai’r coed yn parhau i gael eu monitro bob tri neu chwe mis gyda'r arolygon yn defnyddio'r feddalwedd Arc Online a ddefnyddir gan yr Awdurdod.

Dywedwyd bod 73% o’r coed wedi cael eu harchwilio hyd yn hyn, a bod rhyw 50% ohonynt wedi’u heintio yn sylweddol.  Roedd gwaredu 42 o’r coed a glustnodwyd i’w cwympo bellach wedi’i wneud.  Bydd coed o rywogaeth wahanol yn cael eu plannu yn eu lle.  Byddai'r archwiliadau yn parhau ym Mharth 1, a bydd coed ym Mharth 2 a rhai ym Mharth 3 yn cael eu harchwilio yn ystod yr haf sy’n dod.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad rhagorol a chanmolwyd y tîm am y gwaith a gyflawnwyd. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch effaith gwaredu’r coed ar gadwraeth, dywedodd y swyddog bod yr holl goed yn cael eu hasesu am eu gwerth cadwraethol, ond roedd nifer fawr o'r rhai a waredwyd yn goed ifanc a heb fod o werth arwyddocaol.  Serch hynny, nodwyd hefyd bod yr Awdurdod yn cynnal prosiect ar wahân i fapio coed hynod ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol. O ran cael gwared ar y coed a gwympwyd, nododd y swyddog nad oedd y rhan fwyaf o’r pren o werth masnachol ac yn cael eu malu’n sglodion neu eu gadael i bydru. Fodd bynnag, roedd rhai wedi'u gwerthu drwy gontract neu wedi'u defnyddio gan yr Awdurdod fel tanwydd.  Hefyd dywedodd y swyddog wrth y Pwyllgor mai dim ond coed ar ystâd yr Awdurdod oedd wedi’u harchwilio, ond pe bai staff yn dod ar draws coeden wedi’i heintio ar hawl tramwy cyhoeddus, byddent yn rhoi gwybod i'r tirfeddiannwr ac o bosibl yn gwaredu’r goeden fel rhan o’r gwaith o reoli’r hawl tramwy er nad oes dyletswydd i wneud hynny.

**NODWYD.**

## 7. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i’w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 heb eu diwygio. |